# Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn

**Heol y Bardd, Porth Tywyn,**
**Sir Gaerfyrddin SA16 0NL**
**Ffôn:- 01554 832101**
**Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru**
**www.ysgolparcytywyn.co.uk**
**Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher : Mrs H Davies**


**20/12/22**
**DIWEDD TYMOR YR HYDREF 2022**

Annwyl Rieni / Gwarcheidwaid,

Rydym yn nesáu at ddiwedd tymor prysur a llwyddiannus arall.

Mwynheuon ni'n fawr eich gweld chi i gyd yn y cyngherddau Nadolig a'r Ffair Nadolig. Rwy'n siŵr y byddwch i gyd yn cytuno eu bod yn ddigwyddiadau llwyddiannus iawn. Rwy'n falch iawn o'r plant a gwaith caled y staff wrth alluogi'r gweithgareddau hyn. Braf oedd gweld pawb yn ôl gyda'i gilydd a'r gwen ar wynebau'r plant! Diolch i bawb am gefnogi'r ddigwyddiadau amrywiol sydd wedi bod yn ystod y tymor a diolch i chi fel rhieni a ffrindiau'r ysgol am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad parhaus.

Bydd fy nghyfnod fel Pennaeth Dros Dro yn dod i ben ar ddiwedd y tymor hwn. Dychwelaf i fy swydd flaenorol fel Dirprwy Bennaeth o fis Ionawr. Bydd Mrs Angharad Williams yn dechrau ar ei rôl fel Pennaeth yr ysgol ar ôl gwyliau'r Nadolig ac edrychwn ymlaen at ei chroesawu i Deulu Tywyn.

Bydd Mrs Rachel Rees yn ein gadael dydd Gwener 23/12/22. Diolchwn yn fawr iddi am ei gwaith clodwiw gyda ni. Hoffwn ddymuno'r gorau iddi yn ei swydd newydd.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch yn gyntaf i'r holl staff am eu teyrngarwch, eu proffesiynoldeb a'u gwaith caled. Yn ail, y disgyblion eu hunain, am eu hymrwymiad, bob amser yn ymdrechu i wneud eu gorau glas tra'n cofleidio'r cyfleoedd a roddir iddynt. Yn olaf, ond nid yn lleiaf o bell ffordd, i chi fel rhieni am y gefnogaeth barhaus a gefais wrth ymgymryd â fy rôl fel Pennaeth Dros Dro.

Bydd yr ysgol yn cau ar ddydd Gwener 23 Rhagfyr am 3:20pm ar gyfer POD 1 a 2 a 3:25pm ar gyfer POD 3. Bydd yr ysgol yn ailagor i ddisgyblion ddydd Mawrth 10fed Ionawr 2023.

Ar ran yr ysgol, dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd.

Yn ddiffuant,

*H Davies*
Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher